Adroddiad y Llywydd

Adroddiad gan Lywydd y Tribiwnlysoedd apêl am safon y penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

2006-2007

Adroddiad y Llywydd

Adroddiad gan Lywydd y Tribiwnlysoedd apêl am safon y penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

2006-2007

Cynnwys

Rhagair y Llywydd .....

1 Cyd-destun 2

2 Crynodeb Rheoli 3

3 Y Sampl a'r Canlyniadau 11

4 Penderfyniadau Anfeddygol 19

5 Penderfyniadau lle'r oedd tystiolaeth feddygol 25

6 Penderfyniadau'r Asiantaeth Cynnal Plant.....33

7 I gloi 35

Atodiad A:
Yr Holiadur a'r Samplu 37

Atodiad B:
Yr achosion yn y sampl a'r canlyniadau yn ôl budd-dal –
Tablau A-G 42

Atodiad C:
Yr achosion yn y sampl a chanlyniadau 2005-2006 46

Atodiad D:
Rhestr Byrfoddau 56

Rhagair y Llywydd

Rwyf yn falch o allu cyflwyno fy seithfed adroddiad ysgrifenedig llawn i'r Ysgrifennydd Gwladol am y safonau penderfynu mewn achosion a ddaeth gerbron y tribiwnlysoedd apêl ym mlwyddyn ariannol 2006-2007. Hwn yw fy adroddiad llawn olaf fel Llywydd y Tribiwnlysoedd Apêl sy'n ymdrin ag apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, er ei fod yn adroddiad cyntaf imi fel rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yr wyf yn falch o ddweud hefyd ein bod yn yr adran newydd hon wedi gallu cynhyrchu'n un math o adroddiad mewn ffordd debyg. Yr wyf yn hoffi meddwl ei fod wedi bod yn fath effeithiol o adborth, hyd yn oed os nad yw'r argymhellion wedi cael eu gweithredu yn y ffordd y byddwn i wedi ei hoffi neu i'r fath raddau fel y byddent wedi golygu gwyro'n glir oddi wrth ddulliau penderfynu y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cael ei draed danodd ac rwyf yn gobeithio, erbyn y bydd yn bryd ysgrifennu'r adroddiad nesaf, y bydd y newidiadau a argymhellwyd yn Adroddiad Leggatt[1] wedi dod i weddnewid y ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith er budd pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yr wyf yn falch o ddweud bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud eleni eto yn ôl pob golwg o ran safon y penderfyniadau a wneir, er bod y cynnydd yn araf mewn mannau. Fel y soniais y llynedd, yr wyf yn arbennig o falch fod sylw wedi cael ei roi i'r galwadau am weithredu i osgoi dod ag achosion i dribiwnlysoedd. Er bod y broses benderfynu o ran gweithredu wedi bod yn un faith, mae ymdrechion cydweithwyr barnwrol a gweinyddol wedi dwyn ffrwyth ac, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau, a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, rwyf yn obeithiol y bydd cynllun peilot i archwilio Ffyrdd Amgen o Ddatrys Anghydfodau fel modd i ymyrryd yn y broses benderfynu cyn i achosion gael eu cyfeirio i'r tribiwnlys yn cael y caniatâd angenrheidiol i ddechrau cyn yr haf. Rwyf fi a'm cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn croesawu hynny a byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi amcanion y drefn newydd.[2]

Dim ond yn sgil y cydweithio agos rhwng cydweithwyr barnwrol a gweinyddol y mae'r adroddiad hwn yn bosibl. Yr wyf yn arbennig o ddiolchgar i'm gweinyddwyr yn Nhîm Cymorth y Llywydd yn y pencadlys sydd wedi fy helpu i reoli'r broses o gasglu data a pharatoi'r adroddiadau; ac, yn holl bwysig, i'r Cadeiryddion Rhanbarthol a Dosbarth a'r aelodau o'r panel sydd wedi cymhwyso'n feddygol sydd wedi rhoi o'u hamser ar ddiwedd pob achos yn y sampl i ystyried y safonau penderfynu a amlygwyd yn yr achos hwnnw ac i gofnodi eu barn. Heb eu gofal a'u harbenigedd hwy yn llenwi'r holiaduron, a heb gymorth fy nghydweithwyr gweinyddol, ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl.



Michael Harris
Llywydd y Tribiwnlysoedd Apêl

---

1 Leggatt, Sir Andrew. 'Tribunals for Users: One System, One Service'. Mawrth 2001. Y Llyfrfa, Llundain.

2 Ar y cyd â'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr ac Asiantaethau eraill, mae nifer o gynlluniau, rhy niferus i'w crybwyll yma, yn cael eu rhoi ar waith bob blwyddyn ond maent yn dangos y camau adeiladol sy'n cael eu cymryd tuag at wella'r safonau penderfynu ar draws yr Adran Gwaith a Phensiynau.

1 Cyd-destun

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y llwybr a bennwyd yn yr adroddiadau blaenorol ac, er ein bod yn adolygu'r holiadur yng ngoleuni unrhyw adborth gan gydweithwyr bob blwyddyn, mae'r dull samplu wedi aros yr un fath i raddau sylweddol â'r drefn a bennwyd dros y blynyddoedd a fu.

1.2 Ar ôl cwblhau fy seithfed adroddiad blynyddol, yr wyf yn dal yn hyderus fod fy nghasgliadau a'r tueddiadau a nodir yn cynrychioli canlyniadau yn ein gwrandawiadau, er na ellir dweud bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn gynrychiadol o'r safon benderfynu ar draws yr holl ystod o achosion. Gwneir miliynau o benderfyniadau bob blwyddyn yn yr awdurdodaethau hynny sy'n cyfeirio achosion i'n tribiwnlysoedd, a dim ond cyfran fach, rhyw 223,302 yn 2006-2007, ddaeth i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Er bod yr achosion hyn yn dangos ble mae pethau wedi mynd o chwith ac, efallai, sut y gall yr Asiantaethau fynd ati i gywiro pethau, nid yw'n bosibl dweud yn bendant a yw'r achosion a welwn ni yn fwy tebygol o fod yn achosion lle mae'r Adran wedi dod i'r casgliad *anghywir*, er bod synnwyr cyffredin yn awgrymu bod hynny'n debygol.

1.3 Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae cyfoeth o wybodaeth am y safonau penderfynu o ffynonellau mewnol ac allanol i'r Adran. Mae cryn lawer o orgyffwrdd rhwng yr hyn yr wyf fi wedi bod yn ei ddweud dros y saith mlynedd diwethaf a'r hyn y mae'r ffynonellau eraill hyn yn ei ddweud.

1.4 Ym mis Rhagfyr 2006, cynhyrchodd Pwyllgor Safonau Penderfynu yr Adran ei hun ei drydydd Adroddiad Blynyddol, 2005-2006[3]. Mae'r adroddiad yn ceisio gwneud sylwadau am y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn ei argymhellion o flynyddoedd blaenorol ac mae'n argymell meysydd i'w gwella. Gwneir sylwadau penodol am y ffordd y mae Asiantaethau'n gwneud penderfyniadau yn ogystal â sylwadau am y safonau penderfynu yn gyffredinol. Fel y dywedwyd yn yr adroddiad, mae'r ffaith fod gwahanol Asiantaethau'n cael eu datblygu i roi busnes yr Adran Gwaith a Phensiynau ar waith yn golygu bod modd i brosesau a systemau gwahanol gael eu mabwysiadu ym mhob Asiantaeth ar gyfer yr un dasg neu dasgau tebyg a gall hyn arwain at fecanweithiau penderfynu gwahanol ac amrywiadau yn y safonau.

---

3 Adroddiad Blynyddol 2005-2006 Pwyllgor Safonau Penderfynu yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cangen Materion Dyfarnu a Chyfansoddiadol yr Adran Gwaith a Phensiynau, Leeds, 2006.

4 Ibid td.3.

1.5 Eleni mae nifer o argymhellion y Pwyllgor yn gorgyffwrdd â'r hyn yr wyf wedi bod yn ei ddweud yn yr adroddiad hwn dros y saith mlynedd diwethaf. Dan yr argymhellion generig gelwir am dechnegau segmentu datblygedig i deilwrio'r broses hawliadau ar gyfer y grwpiau hynny sy'n cael anhawster neilltuol i hawlio. Er y gallai pobl fod yn amheus ynglŷn â chymhwyso technegau marchnata i'r hawl i fudd-dal, mae hon yn un agwedd sy'n gymwys. Dywed yr adroddiad: "The Department has not monitored the needs of different customer groups adequately and therefore has not been in a position to design their processes to meet their diverse needs. This is despite considerable anecdotal evidence that some groups of people such as those with mental illness and those with sensory impairments receive a poorer service."[4] Fel y bydd unrhyw un sydd wedi darllen yr adroddiadau hyn yn gwybod, mae sut y mae'r broses benderfynu yn ymdrin â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn rhywbeth yr wyf wedi tynnu sylw ato ers fy adroddiad 2002-2003, ac mae'r problemau i bobl sydd â nam ar y synhwyrau yn rhywbeth a grybwyllais yn benodol y llynedd. Byddwn yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau wrth iddo awgrymu y dylai materion iechyd meddwl a nam ar y synhwyrau fod yn rhan o strategaeth lefel uwch i ddiwallu anghenion defnyddwyr amrywiol.

1.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn amlygu mynediad at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r broses o gasglu gwybodaeth fel mater y dylid rhoi sylw iddo.[5] Y cwestiwn a ofynnais i y llynedd oedd a ydym, drwy newid y ffordd y mae hawlwyr yn cysylltu â'r Adran, yn gwella'r drefn benderfynu. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth nad yw hynny'n wir i rai grwpiau ac mae mabwysiadu trefn o ddefnyddio canolfannau galwadau fel model gweithredu safonol yn lleihau mynediad i'r rhai sydd yn y grwpiau mwyaf bregus, megis y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu nam ar y synhwyrau. Mae'r pwyllgor yn awgrymu bod capasiti annigonol yn golygu bod oedi ac, ar yr un pryd, bod dyblygu yn y broses hawliadau newydd. Gofynnir am rai mathau o wybodaeth fwy nag unwaith ac, fel y gwyddom o'r dystiolaeth ychwanegol sy'n cael ei darparu i dribiwnlysoedd, ni ofynnir am beth tystiolaeth dyngedfennol o gwbl.

1.7 O ran hawliadau a thystiolaeth, er bod ffurflenni hawlio clercaidd yn dal yn gyfreithiol i fod yn ddull derbyniol o wneud hawliad, maent yn cael eu gwrthod gan rai swyddfeydd gan mai'r dull safonol yw hawlio dros y ffôn. Pan fydd pethau'n mynd o chwith mae hawlwyr yn cael

4 Ibid td.3.
5 Adran 2. 9 a 10. Td. 10 et seq.

anhawster i gysylltu â'r rhai sy'n penderfynu i unioni pethau. Mae hyn yn tanseilio'r broses apêl ac yn atgyfnerthu amharodrwydd apelwyr i ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt yn uniongyrchol i'r Adran yn hytrach na'i chyflwyno pan ddônt i wrandawiad.

1.8 Mater eilradd, ond un sydd wedi cael ei amlygu ym mhob un o'r adroddiadau blynyddol hyn, yw'r ffordd y mae tystiolaeth feddygol yn cael ei rheoli gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r rhai sy'n penderfynu yn teimlo rheidrwydd i ddilyn adroddiadau'r gwasanaethau meddygol a hynny'n aml nes diystyru tystiolaeth arall, yn cynnwys tystiolaeth gan yr apelydd, sydd ar gael, ond nid ydynt yn dweud pam y maent yn dibynnu ar un farn yn hytrach na barn arall. Er mwyn i apelwyr fod â ffydd yn y broses benderfynu, mae angen eu sicrhau y bydd y dystiolaeth y maent yn ei darparu yn cael ei chymryd o ddifrif ac y rhoddir ystyriaeth briodol iddi. Mae tystiolaeth yn y samplu ar gyfer yr adroddiad hwn ac o'r Pwyllgor Safonau nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

1.9 Wrth ddarllen adroddiad y Pwyllgor Safonau yr hyn a wnaeth argraff arnaf eleni yw fel y gall newidiadau gweithredol effeithio ar y broses benderfynu ac apelio. Pell storio dogfennau oedd y mater a'm gwnaeth yn ymwybodol o hyn. Yn ystod fy adroddiadau yr wyf yn aml wedi cyfeirio at yr anawsterau sy'n codi pan fydd achosion yn dod gerbron tribiwnlysoedd heb yr holl dystiolaeth. O'r wybodaeth yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, mae'n ymddangos ei fod yn awgrymu y gallai systemau storio ac adalw gwael fod yn cyfrannu at apeliadau. Yn 3.1 yng nghyd-destun system pell storio'r Gwasanaeth Pensiynau, dywed y Pwyllgor: "The Committee has found that problems with missing evidence and files persist, slowing and frustrating the processing system. In addition customers have reported that missing evidence and files can mean that they experience difficulties in progressing issues and have difficulty ensuring that they receive their correct entitlement. This may result in an increase in the number of cases that go to appeal."

1.10 Mae penderfyniadau gweinyddol yn cael eu gwneud mewn cyd-destun llawer ehangach. Mae tribiwnlysoedd yn rhan o'r broses atebolrwydd ehangach i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhaid i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran fod â ffydd yn y system i sicrhau, pan fydd pethau'n mynd o chwith, y cânt gyfle i'w cywiro. Dyna pam yr wyf yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i fwydo rhai o'r canfyddiadau o'n penderfyniadau yn ôl.

1.11 Y brif ffynhonnell adborth yw'r gwrandawiad tribiwnlys. Mae ein tribiwnlysoedd mewn sefyllfa unigryw i ddweud wrth yr Adran beth yw eu barn nhw am safon ei phenderfyniadau ac maent yn gwneud hynny lawer gwaith y diwrnod drwy lunio eu dyfarniadau a'u trosglwyddo'n ôl i'r Adran iddi hi eu rhoi ar waith. Pe bai'r Adran yn anfon Swyddogion Cyflwyno i wrandawiadau llafar fel mater o drefn byddai hyn yn darparu adborth uniongyrchol. Yr eithriad i hyn yw'r Asiantaeth Cynnal Plant sy'n cynnal lefel uchel o bresenoldeb.[6]

1.12 Fel yr wyf wedi ei amlygu ym mhob un o'm hadroddiadau blaenorol, mae'r Swyddog Cyflwyno yn chwarae rôl ddeuol holl bwysig yn y gwrandawiad apêl – mae'n cynrychioli'r Ysgrifennydd Gwladol wrth egluro'r penderfyniad a wnaethpwyd, ac mae'n gweithredu fel *amicus curiae* wrth helpu'r tribiwnlys i ddod i benderfyniad sy'n gywir yn gyfreithiol. Ef hefyd sydd yn y sefyllfa orau i wrando ar a deall trywydd holi, rhesymu a phenderfynu'r tribiwnlys, i ystyried pa oblygiadau ehangach y gallai'r gwrandawiad eu cael o ran penderfyniadau y bydd ei gydweithwyr yn eu gwneud yn y dyfodol ac i fynd â negeseuon yn ôl iddynt.

1.13 Mae'r samplu o'r saith mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad o ran presenoldeb Swyddogion Cyflwyno. Yn y sampl eleni, mae'r ffigur yr un fath â'r llynedd, ar 27%. Fel y dywedais o'r blaen, mae absenoldeb Swyddog Cyflwyno mewn gwrandawiadau llafar yn newid dynameg yr achos ac mae'n gallu rhoi'r argraff mai haen arall yn y broses benderfynu yw'r tribiwnlys yn hytrach na'r awdurdod apeliadol priodol.

1.14 Yn y blynyddoedd a fu, mae'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn ei adroddiad blynyddol[7] hefyd wedi codi'r mater o oedi cyn dod ag achosion i wrandawiad ac mae hwn yn rhywbeth yr ymdriniais ag ef gyntaf yn fy adroddiad blynyddol 2003-2004. Mae oedi cyn dod ag achosion i dribiwnlys yn effeithio'n anochel ar y penderfyniadau a wneir. Pan fydd digwyddiadau'n fyw yng ngof apelwyr a'r rhai sy'n penderfynu mae'n llawer haws dod â'r dystiolaeth ynghyd a rhesymoli penderfyniadau, fel yr ydym wedi ei weld o argymhellion y Pwyllgor Safonau. Mae'r Adran hefyd yn cael problemau o ran ffeilio a storio dogfennau. Mae'n amhosibl adolygu penderfyniad

---

6 Yr oedd y gyfradd gyflwyno am y cyfnod Ebrill 2006-Mawrth 2007 yn y sampl yn 81%. O ffigurau'r Asiantaeth Cynnal Plant ei hun am yr un cyfnod, yr oeddent yn bresennol mewn 90% o wrandawiadau llafar, yn rhannol drwy bresenoldeb dros gyswllt fideo sydd ar gael erbyn hyn ym mhrif ganolfannau apelio'r Asiantaeth.

7 Y Cyngor Tribiwnlysoedd. Adroddiad Blynyddol 2005/2006. Y Llyfrfa, Llundain.

heb y dogfennau hynny ac mae hefyd yn ei gwneud yn amhosibl dilysu unrhyw benderfyniad mewn tribiwnlys.

1.15 Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn dal i gwtogi amseroedd aros cyfartalog o'r adeg y daw'r apêl i law tan y gwrandawiad cyntaf, a'r ffigur ar hyn o bryd yw 9.6 wythnos. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd o fewn yr Asiantaethau i gwtogi'r amseroedd aros o'r dechrau i'r diwedd yn sylweddol. Mae'r amrywiadau mawr o ran yr amser y mae'n ei gymryd i ddod ag apeliadau i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn ychwanegu at y problemau sydd eisoes wedi cael eu crybwyll uchod ynglŷn â mynediad a chadw dogfennau ac, yn fwy pwysig, gadael y rhai sydd mewn grwpiau bregus heb gymorth y mae mawr ei angen arnynt.

2 Crynodeb Rheoli

2.1 Mae'r sampl eleni wedi cipio cyfanswm o 1,640 o achosion ac rydym wedi bod yn bur llwyddiannus wrth geisio adlewyrchu'r proffil achosion drwyddynt draw a ddaeth i law'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd mewn blwyddyn. Mae achosion Cynnal Plant yn cael eu gorgynrychioli yn y sampl, ar oddeutu 13% o'i gymharu â 2% yn y ffigurau cenedlaethol. Mae'r gorgynrychioli yn fwriadol, a'r bwriad oedd sicrhau adborth ystyrlon i'r Asiantaeth Cymorth Plant. Mae gweddill y sampl yn adlewyrchu'r achosion a ddaeth i law yn 2005 yn weddol dda.

2.2 Mae'r patrwm ar gyfer yr adroddiad hwn wedi cael ei sefydlu erbyn hyn. Fe'i cyhoeddir yn ôl cylchredeg tri adroddiad interim chwarterol a gynhyrchwyd gennym yn ystod y llynedd. Cafodd yr adroddiadau interim eu cynhyrchu er mwyn darparu ffynhonnell werthfawr o adborth ychwanegol i'r Asiantaeth fel y gallent werthuso eu perfformiad eu hunain yn ystod y cyfnod hwn ac addasu eu gweithredoedd yn unol â hynny.

2.3 Yma megis mewn mannau eraill yn yr adroddiad dylid cofio mai cyfuniad o resymau sy'n arwain yn aml at wrthdroi achosion. Tynnir sylw at y prif resymau yn yr adroddiad ond mae Cadeiryddion yn aml yn nodi cyfuniad o ffactorau sy'n cyfrannu at y penderfyniad terfynol a gallant dicio nifer o flychau yn yr holiaduron.

2.4 Yn sgil addasu'r rhestr samplu eleni yr ydym wedi llwyddo i gynhyrchu sampl o benderfyniadau yr apeliwyd yn eu herbyn sydd ar y cyfan yn gynrychiadol, ac eithrio achosion yr Asiantaeth Cynnal Plant a grybwyllwyd uchod ac achosion Budd-dal Analluogrwydd. Gan fod y canlyniadau'n dod o'r samplau, dylid bod yn ochelgar wrth ymdrin â nhw gan ganiatáu rhywfaint ar gyfer cyfeiliorni. Bydd y lwfans cyfeiliorni yn dibynnu ar faint y sampl; felly gyda chanlyniadau lle mae'r sampl yn fach iawn, bydd lwfans cyfeiliorni helaeth. Rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau eleni â blynyddoedd blaenorol; lle nad oes ond gwahaniaeth bach gallai hyn fod wedi digwydd drwy siawns ac ni fydd o reidrwydd yn dynodi unrhyw newid arwyddocaol.

2.5 Wrth gymharu ffigurau, er enghraifft y gyfradd penderfyniadau a wrth-drowyd, mae'n bwysig cofio na fydd canlyniadau'r sampl yn cyfateb i ganlyniadau'r ystadegau oddi wrth yr Asiantaethau. Dim ond ar yr achosion hynny sy'n dod gerbron tribiwnlysoedd y seilir y sampl, a bydd yr ystadegau cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo ffigurau'r Asiantaethau wedi cael eu seilio ar yr holl achosion hynny a gyfeiriwyd i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, yn cynnwys nifer nad ydynt yn cyrraedd gwrandawiad tribiwnlys.

2.6 O ran Canolfan Byd Gwaith, Y Gwasanaeth Pensiwn a'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn unol â'r themâu yn yr adroddiadau interim:

- Darparwyd tystiolaeth ychwanegol yn y gyfran fwyaf o achosion a wrth-drowyd ac roedd y dystiolaeth hon yn aml ar ffurf tystiolaeth lafar a ddarparwyd gan yr apelydd yn y gwrandawiad. Mae angen mecanwaith ar yr Asiantaethau i dynnu'r wybodaeth hon allan cyn y gwrandawiad;

- Cymerodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth mewn rhai achosion gan ei fod yn credu bod yr Asiantaethau wedi bod yn anghywir i beidio â derbyn tystiolaeth oedd ger eu bron neu nad oeddent wedi rhoi digon o bwysau i dystiolaeth. Dylid edrych yn gytbwys ar yr holl dystiolaeth, nid dim ond y dystiolaeth sy'n ategu barn y rhai sy'n penderfynu. Lle caiff tystiolaeth ei diystyru dylai'r cyflwyniad i'r tribiwnlys gyfeirio at hynny ac egluro pam.

- Mewn achosion lle'r oedd angen adroddiadau meddygol, gwnaethpwyd rhai penderfyniadau ar sail adroddiadau nad oeddent wedi llawn adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd. Mewn achosion iechyd meddwl, nid oedd maint y problemau a wynebid wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn llawn.

- Mae presenoldeb yr apelydd yn y gwrandawiad yn cael effaith sylweddol ar y canlyniad, un ai drwy fwrw goleuni newydd ar dystiolaeth oedd wedi cael ei chyflwyno eisoes neu drwy gynhyrchu tystiolaeth newydd. Mae tribiwnlysoedd yn dal i bwysleisio gwerth holi'r apelydd er mwyn datrys materion dadleuol yn ymwneud â'r mater sy'n destun apêl.

2.7 Mewn achosion Cynnal Plant mae'r prif ganfyddiadau yn adlewyrchu'r rheini sy'n berthnasol i'r budd-daliadau eraill:

- Y rheswm mwyaf cyffredin dros wrthdroi achosion oedd bod tystiolaeth ychwanegol wedi cael ei chyflwyno i'r tribiwnlys, yn bennaf ar ffurf tystiolaeth lafar yr apelydd;

- Mae angen bod yn fwy gofalus gyda dogfennau a chyfrifiadau. Mae angen i'r Asiantaeth fod yn fwy trylwyr wrth wirio ffeithiau'r hawliad a chymryd sylw o'r partïon a mynd ar drywydd anghysondebau cyn y gwrandawiad;

- Mae angen bod yn ofalus wrth baratoi achosion ar gyfer gwrandawiad i sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r mater dan apêl ar gael a'u bod yn mynd gyda'r cyflwyniad.

2.8 Y brif thema o bob math o achos yw bod gwybodaeth ychwanegol sy'n dod allan yn y gwrandawiad yn effeithio'n sylweddol ar y canlyniad terfynol. Mae'n fater y tynnwyd sylw ato ym mhob adroddiad dros y saith mlynedd diwethaf gan roi digonedd o gyfle i'r Asiantaethau i roi sylw iddo.

2.9 Mae'n hanfodol bwysig cyn y gwrandawiad fod pob cyfle wedi cael ei gymryd i ymchwilio i'r materion a godwyd ac i ymdrin ag unrhyw anghysondebau yn y dystiolaeth. Mae'n neilltuol o bwysig ymdrin â'r materion a godwyd gan yr apelydd, fel y'u nodwyd yn rhesymau'r apelydd dros apelio.

3 Y Sampl a'r Canlyniadau

3.1 Mae'r fethodoleg a ddilynwyd i gasglu gwybodaeth ar gyfer y sampl eleni a gwybodaeth fanylach, yn cynnwys yr holiadur a ddefnyddiwyd, i'w gweld yn Atodiad A. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 1,640 o holiaduron – a lenwyd gan y cadeirydd a (lle mae hynny'n berthnasol) yr aelod meddygol – eu dychwelyd inni. Mae dadansoddiad o'r sampl o'i gymharu â'r achosion a ddaeth i law yn genedlaethol i'w weld yn Nhabl 1 isod. Ceir cymhariaeth rhwng sampl y flwyddyn hon a chanlyniadau'r llynedd yn Atodiad C.

Tabl 1 Y sampl o'i gymharu â'r achosion a ddaeth i law yn genedlaethol – %

Budd-dal	Sampl		Cyf. achosion
	Nifer Achosion	%	%
Asesiadau/Gwyriadau Cynnal Plant	221	13	2
Lwfans Byw i'r Anabl/Lwfans Gweini	690	42	37
Budd-dal Analluogrwydd	196	12	32
Cymhorthdal Incwm	165	10	8
Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol/Budd-dal Anafiadau Diwydiannol	109	6	4
Lwfans Ceisio Gwaith	76	5	7
Eraill	183	12	10
Cyfanswm	1,640		

* Roedd cyfanswm yr achosion yn genedlaethol yn 2006-2007 yn 223,302.



3.2 Mae achosion Cynnal Plant yn cael eu gorgynrychioli'n fwriadol yn y sampl, gyda'r nod o gael digon o achosion Asiantaeth Cynnal Plant i

allu llunio casgliadau ystyrlon. Eleni, roedd achosion Budd-dal Analluogrwydd wedi cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn y sampl, ac mae gweddill yr achosion yn adlewyrchu'n fras yr achosion a ddaeth i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar gyfer mathau eraill o apêl.

Canlyniadau'r Sampl

Cynhyrchodd yr holiaduron gyfanswm o 1640 o atebion am y cyfnod o fis Ebrill 2006 hyd at fis Mawrth 2007. Cyfyngwyd y sampl i'r tribiwnlysoedd hynny a arweiniodd at y tri chanlyniad isod:

- Gohirio – lle'r oedd rhyw reswm i'r achos beidio â chael ei glywed, er enghraifft lle'r oedd yr apelydd yn absennol oherwydd salwch, neu lle'r oedd y Cadeiryddion wedi gofyn am eglurhad pellach a bod y mater wedi cael ei gyfeirio'n ôl at y sawl a wnaeth y penderfyniad.
- Gwrthdroi – lle mae'r tribiwnlys yn anghytuno â phenderfyniad y sawl a wnaeth y penderfyniad ac yn gwneud ei benderfyniad ei hun.
- Cadarnhau – lle mae'r tribiwnlys yn cytuno â'r penderfyniad.

3.3 Mae Tabl 2 isod yn dangos canlyniadau'r sampl wedi'u dadansoddi yn ôl math o'u cymharu â'r canlyniadau cenedlaethol am 2006-2007. Mae'r ffigurau'n dangos bod 38% o'r penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi ac y cadarnhawyd rhyw 48%. Mae hyn unwaith eto yn dangos bod y dadansoddiad yn ôl math o ganlyniad yn y sampl yn gynrychiadol yn fras.

Tabl 2 Canlyniadau'r sampl o'u cymharu â chanlyniadau cenedlaethol

	Sampl		Cenedlaethol
Gohiriwyd	233	14%	16%
Gwrth-drowyd	616	38%	37%
Cadarnhawyd	791	48%	47%



Achosion a wrth-drowyd

3.4 Wrth edrych ar yr achosion a wrth-drowyd mae'n bwysig cofio bod y mwyafrif o achosion sy'n dod gerbron tribiwnlys yn cael eu cadarnhau, ac adlewyrchwyd hynny yn y sampl eleni lle mae'r achosion a gadarnhawyd i gyfrif am 48% o'r penderfyniadau. Yn yr achosion hynny lle cafodd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ei wrthdroi gan y tribiwnlys, y prif gwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb oedd: pam y cafodd y penderfyniad ei wrthdroi? Cynigiwyd nifer o ddatganiadau i gadeiryddion (ac aelodau meddygol) ar yr holiadur y gallent eu ticio i nodi'r rhesymau am wrthdroi'r penderfyniad (gallent dicio mwy nag un blwch ym mhob achos). Mae'r datganiadau y cytunwyd â hwy yn fwyaf cyffredin i'w gweld yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3 Canlyniadau – 616 o Achosion wedi'u Gwrthdroi

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	379 (62%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	153 (25%)
3 **Ffeithiau annigonol:** Seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau neu dystiolaeth annigonol oherwydd ymchwilio annigonol i'r hawliad neu ailystyried.	64 (10%)
4 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	85 (14%)
5 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	224 (36%)
6 **Barn wahanol (feddygol):** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	61 (10%)
7 **Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd:** Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	81 (13%)
8 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	54 (9%)



3.5 Yr ymateb mwyaf cyffredin o hyd yw bod tystiolaeth ychwanegol wedi cael ei rhoi i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad, rhyw 379 o achosion (62%) o'r rhai a gafodd eu gwrthdroi, sydd yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r canfyddiadau yn sampl y llynedd (69%). Yn yr achosion a gadarnhawyd cafodd tystiolaeth ychwanegol ei chyflwyno mewn 68 o achosion (9%).

3.6 Yn yr achosion hynny lle darparwyd tystiolaeth ychwanegol yr oedd ar ffurf tystiolaeth lafar mewn 275 o achosion, (45% o'r holl achosion a wrth-drowyd). O blith y 275 hyn yr oedd 220 (80%) lle cafodd y dystiolaeth ei darparu gan yr apelydd. Nid yw'r ffigur hwn yn gwbl annisgwyl gan fod y gyfran fwyaf o'r achosion yn y sampl o bell ffodd yn wrandawiadau llafar, 1,260 o'r cyfanswm o 1,640, 78%, a 546 o'r achosion a wrth-drowyd, 89%, sy'n cymharu â 80% a 91% yn y sampl y llynedd.

3.7 Mewn 135 o achosion, 18%, darparwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys, ac mewn 50 o achosion cyfuniad o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ddarparwyd i'r tribiwnlys.

3.8 Darparu tystiolaeth ychwanegol, ym mha ffurf bynnag, yw'r rheswm pennaf o hyd am wrthdroi achosion, ac felly y bu hi ers inni ddechrau samplu ar gyfer yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd yn 2001. Ar 62% o sampl 2007, fymryn yn is na ffigur y llynedd o 69%, mae'r ffigur yn dal i awgrymu bod y brif ffynhonnell wybodaeth bwysig hon yn cael ei hesgeuluso yn y broses benderfynu. Mae tuedd o hyd ar ran y rhai sy'n penderfynu i anwybyddu tystiolaeth a geir gan yr apelydd yn y broses o gasglu tystiolaeth cyn penderfynu ac yna wrth baratoi'r apêl. Dylid cysylltu â'r apelydd cyn i'r achos ddod i wrandawiad i sefydlu a yw'r ffeithiau i gyd yn gywir ac a oes modd bwrw goleuni pellach ar yr amgylchiadau, a allai effeithio ar y penderfyniad sy'n destun apêl. Dylai hyn fod yn rhan o broses adolygu drylwyr cyn y gwrandawiad.

3.9 Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth mewn 224 o'r achosion a wrth-drowyd, (36%), yr un ganran â'r llynedd. Mewn 61 (10%) o'r achosion y dystiolaeth feddygol yn benodol gafodd ei dehongli'n wahanol, ffigur sylweddol is na'r 21% o achosion y llynedd, a gwelliant i'w groesawu. Dywed Cadeiryddion yn aml mai'r rheswm dros gymryd barn wahanol yw bod holi'r apelydd yn y gwrandawiad a chymryd ei hanes yn llawn yn bwrw goleuni newydd ar y tystiolaeth oedd ganddynt yn barod, ac nad oes pwysau dyledus yn cael eu rhoi i'r dystiolaeth sydd ar gael.

3.10 Mae problemau o ran derbyn tystiolaeth yn parhau, fodd bynnag, ac fe'u hadlewyrchir yn y 153 o achosion, (25%), lle na dderbyniodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y dystiolaeth oedd ar gael, ac yn yr 85 (14%) o achosion lle barnwyd nad oedd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad wedi rhoi pwysau priodol i'r dystiolaeth oedd ar gael. Y thema gyffredin yw nad oes sylw digonol yn cael ei roi i dystiolaeth yr apelydd wrth ddod i gasgliad.

3.11 Eleni mae'r nifer o adroddiadau meddygol nad oeddent wedi llawn sylweddoli difrifoldeb anabledd yr apelydd wedi gostwng yn sylweddol eto o 22% y llynedd i 81 o achosion, 13%, yn y sampl eleni. Mae hyn yn beth i'w groesawu ac mae'n dangos penderfyniad ar ran yr Is-adran Iechyd a Budd-daliadau i wella safon y ffynhonnell dystiolaeth holl bwysig hon. Mae'r adroddiadau meddygol sy'n dod gerbron y tribiwnlys yn tarddu o nifer o ffynonellau. Yn y sampl eleni cwblhaodd ATOS ei hun adroddiadau meddygol mewn 90% o'r achosion a gafodd eu gwrthdroi, yr un gyfran â'r llynedd. Yn yr achosion hynny lle teimlai'r tribiwnlys nad oedd yr adroddiad meddygol yn llawn adlewyrchu maint yr anabledd, roedd yr apelydd yn bresennol mewn 54 o achosion (54%) ac roedd modd felly i'r tribiwnlys ei holi.

3.12 Yn y sampl eleni roedd y nifer o achosion lle lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth feddygol hefyd wedi gostwng i 61 o achosion, (10%), sy'n ostyngiad sylweddol o'r 166, (21%), y llynedd. Mewn 51 (8%) o'r achosion a wrth-drowyd, nid oedd yr adroddiad meddygol wedi ymdrin â'r materion meddygol i gyd, mewn 20 (3%) roedd y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi camddehongli'r dystiolaeth feddygol, mewn 25 (4%) nid oedd y cyngor yn yr adroddiad meddygol wedi cael ei gyfiawnhau'n ddigonol, mewn 10 (2%) ni thybiwyd bod y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn gyson ac mewn 25 (4%) teimlid bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi anwybyddu tystiolaeth a allai fod wedi effeithio ar y penderfyniad. Eto, mae'r ffigurau hyn yn dangos gwelliant bach drwyddi draw yn safon gyffredinol y dystiolaeth feddygol.

3.13 Gwnaeth y cadeiryddion nifer o sylwadau am dystiolaeth feddygol. Pwysleisiasant werth gwranadawiadau llafar i ychwanegu at y wybodaeth mewn adroddiadau meddygol, beirniadasant adroddiadau oedd yn cynnwys hanes anghyflawn a gymerwyd mewn archwiliadau byr iawn gan yr Adran a nodasant fod gan rai apelwyr broblemau cyfathrebu a allai arwain at asesiadau anghyflawn neu anghywir o anabledd. Eto, beirniadasant achosion lle na cheisiwyd tystiolaeth feddygol bellach yn gynharach neu lle nad oedd ymchwiliadau pellach wedi cael eu cynnal pan oedd yna yn amlwg faterion nad oeddent wedi cael eu datrys ac na roddwyd sylw i hynny yn y cyflwyniad. Yn gyffredinol, tybid nad oedd pwysau digonol yn cael eu rhoi i faterion iechyd meddwl ac yn aml dim ond drwy holi'r apelydd ynglŷn â maint y cyfyngiadau y mae'r materion hyn yn eu rhoi arno y deuai'r ffeithiau llawn i'r amlwg.

3.14 Fodd bynnag, dywedodd cadeiryddion yn gyson hefyd nad oes fawr ddim y gall yr Asiantaethau ei wneud i osgoi apeliadau. Dim ond mewn 54 (9%) o'r achosion a wrth-drowyd yr oedd y tribiwnlys o'r farn y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl, yr un ganran â'r llynedd. Mewn achosion Cynnal Plant dylid cofio y gallai'r hawliad fod wedi cael ei adolygu ond, gan fod dau barti i'r achos, os nad oedd yr adolygiad o blaid yr apelydd roedd y mater yn dal i gael ei gyfeirio i dribiwnlys apêl.

3.15 Dyma'r bedwaredd flwyddyn yr ydym wedi casglu gwybodaeth am safon y cyflwyniadau a gyflwynwyd i'r tribiwnlys. Mae'r cyflwyniad yn nodi ffeithiau'r achos, y dystiolaeth, a'r gyfraith a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Dylai gynnwys manylion yr apêl a'r materion a godwyd, gan ddangos sut y pwysodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y dystiolaeth i ddod i'w benderfyniad a sut mae'r sawl sy'n ysgrifennu'r cyflwyniad yn cefnogi'r canlyniad terfynol. Mae o bwys tyngedfennol i'r tribiwnlys gan ei fod yn caniatáu i'r Asiantaeth, apelwyr ac, yn ddiweddarach, y tribiwnlys i ganolbwyntio ar y cwestiynau dan sylw. Mae'r darlun yn dal i fod yn ffafriol, ac eleni roedd 30 (5%) o achosion a wrth-drowyd lle na lwyddodd y cyflwyniad i ddadlau'r achos yn llawn ac yn effeithiol, ffigur is na'r llynedd pan oedd 51 o achosion (6%). Roedd 23 (4%) lle na chanolbwyntiodd y cyflwyniad ar seiliau'r apêl; 18 (3%) lle nad oedd y cyflwyniad wedi cynnwys yr holl dystiolaeth yn ymwneud â'r penderfyniad oedd yn destun apêl; ac 14 (2%) lle nad oedd y cyflwyniad yn cynnwys nac yn cyfeirio at y statud neu'r gyfraith achosion gywir ac nad oedd yn cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol.

3.16 Dyma grynodeb o'r meysydd hynny y tynnodd cadeiryddion sylw atynt yn eu sylwadau:

- Beirniadwyd achosion a ddaeth gerbron tribiwnlysoedd heb i'r cyflwyniad ymdrin â'r materion i gyd neu lle diystyrwyd tystiolaeth heb i'r sawl oedd yn gwneud y penderfyniad egluro pam. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol lle'r oedd testun yr anghydfod yn gwestiwn cymharol gul;

- Lle'r oedd yn amlwg fod angen ymchwilio ymhellach i faterion holai cadeiryddion pam yr oedd yr achosion wedi cael eu rhoi gerbron y tribiwnlys;

- Roeddent yn beirniadu achosion lle na cheisiwyd tystiolaeth feddygol bellach yn gynharach, gan adael i'r tribiwnlys fynd ar drywydd y mater. Mewn rhai achosion roedd rhaid gohirio'r achos er mwyn cael y dystiolaeth ychwanegol;

- Codwyd pryderon gan gadeiryddion am faterion iechyd meddwl yn y broses benderfynu. Mewn rhai achosion nid oes pwysau digonol yn cael eu rhoi iddynt, a dim ond drwy holi'r apelydd y deuai maint y cyfyngiadau oherwydd problemau iechyd meddwl i'r amlwg;

- Mewn rhai achosion dywedwyd nad oedd yr archwiliadau meddygol yn ddigon trylwyr wrth gynhyrchu hanes llawn.

Achosion a gadarnhawyd

3.17 Lle cafodd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ei gadarnhau gan y tribiwnlys, y prif gwestiwn yr oeddem am ei holi oedd: a oes unrhyw beth y gallai'r Asiantaeth fod wedi'i wneud i atal yr achos rhag gorfod dod i dribiwnlys? Mae'n ymddangos mai'r ateb unwaith eto yw "na" pendant, gyda'r cadeiryddion yn nodi mewn dim ond mewn pedwar o'r 791 o achosion a gadarnhawyd y gallai'r Asiantaeth fod wedi atal yr apêl. Dim ond mewn pedwar y teimlid nad oedd yr Asiantaeth wedi egluro'r penderfyniad yn ddigonol i'r apelydd.

Achosion a ohiriwyd

3.18 Roedd achosion a ohiriwyd i gyfrif am gyfanswm o 233 (14%) o'r sampl ond gan mai gweinyddol gan mwyaf yw'r materion a godwyd nid oes dadansoddiad o'r penderfyniadau hyn yn cael ei roi yn yr adroddiad hwn.

3.19 Mae'r adrannau dilynol, 5-7, sy'n delio â mathau unigol o fudd-daliadau, yn canolbwyntio'n bennaf ar achosion a wrth-drowyd, gan mai'r rhain yw'r achosion lle gellir cael y wybodaeth fwyaf gwerthfawr. Mae yna, fodd bynnag, sylwadau ychwanegol a rhoddir niferoedd, cyfeintiau a chanrannau hefyd sy'n cyfeirio at yr holl achosion yn y sampl. Mae'r cyfeintiau a'r canrannau yn Adran 5-7 yn ymdrin ag achosion a wrth-drowyd yn unig, oni nodir yn wahanol.

4 Penderfyniadau Anfeddygol – Canolfan Byd Gwaith, Y Gwasanaeth Pensiwn a Rheoli Dyledion

4.1 Er mwyn canolbwyntio ar y materion allweddol o ran pob budd-dal, yr wyf wedi categoreiddio'r penderfyniadau hynny a wneir ar sail tystiolaeth anfeddygol a'r rhai a wneir ar sail tystiolaeth feddygol. Y prif fudd-daliadau yn y categori cyntaf yw'r Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm ac mae manylion am faint y sampl a dadansoddiad o'r canlyniadau o ran pob budd-dal i'w gweld yn Atodiad B, tablau A a B ac C. Yr ydym wedi cynnwys gwybodaeth ar wahân am ordaliadau ar draws y budd-daliadau yn yr adroddiad hwn er 2004-2005 yn sgil creu'r Uned Rheoli Dyledion yn 2001. Nid oes ffordd inni beidio â chynnwys y rhain yn y sampl cyffredin drwy ddefnyddio cod budd-dal ar wahân felly bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn y sylwadau yn y categori hwn. Disodlodd Credyd Pensiwn y Warant Isafswm Incwm o fis Hydref 2003. Er ein bod wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i gynnwys achosion Credyd Pensiwn yn y sampl eleni nid ydym wedi gallu olrhain yr achosion hyn ar wahân ac ni lwyddom felly i gynhyrchu nifer digon uchel yn y sampl i lunio casgliadau pendant.

Lwfans Ceisio Gwaith

Tabl 4 22 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1. **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	9 (40%)
2. **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	8 (36%)
3. **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	0
4. **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	11 (50%)
5. **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	1 (5%)



4.2 Mae'r nifer o achosion Lwfans Ceisio Gwaith a gadarnhawyd gan y tribiwnlys wedi cynyddu eleni i 61%, sy'n gynnydd sylweddol ar y ffigur o 49% y llynedd.

4.3 Yn yr achosion a wrth-drowyd, roedd 11 (50%) lle lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth. Mewn naw achos pellach rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol i'r tribiwnlys (40%) ac mewn wyth (36%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd gan y sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn. Nid oedd unrhyw achosion lle nad oedd pwysau priodol wedi cael eu rhoi i'r dystiolaeth neu'r ffeithiau. Yn y naw achos lle cyflwynwyd tystiolaeth ychwanegol roedd hyn ar ffurf tystiolaeth lafar mewn chwech o'r achosion, gan yr apelydd mewn tri. Dim ond mewn un achos y bernid y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.

4.4 Roedd safon y cyflwyniadau ysgrifenedig yn uchel ond mewn un achos ystyrid nad oedd y cyflwyniad wedi dadlau'r achos yn llawn ac yn effeithiol, nad oedd yn cynnwys yr holl dystiolaeth mewn perthynas â'r penderfyniad oedd yn destun apêl, ac nad oedd wedi cynnwys yr holl dystiolaeth a'r ffeithiau nac wedi canolbwyntio ar seiliau'r apêl nac wedi cyfeirio at y statud neu'r gyfraith gywir.

4.5 Y sefyllfa o hyd yw mai penderfyniadau'r farchnad lafur yw mwyafrif yr achosion yr apelir yn eu herbyn, 17 (22%) o'r cyfanswm o 76 o achosion gyda'r amodau hawl ail fwyaf, 11 (14%) o achosion, gyda saith achos o ordalu, (9%).

4.6 Roedd y Cadeiryddion yn canmol safon y penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud o ran Lwfans Ceisio Gwaith yn gyffredinol er eu bod yn dal i fod yn feirniadol o'r cosbau llym a'r wybodaeth anghywir a roddir i apelwyr am ôl-ddyddio hawliadau. Mewn un achos roedd pryder y gallai'r dystiolaeth oedd ar gael yn y papurau fod wedi

osgoi'r apêl pe bai'r sawl oedd yn penderfynu wedi rhoi sylw dyladwy iddi. Cymeradwywyd safon gyffredinol y cyflwyniadau yn arbennig.

Cymhorthdal Incwm

Tabl 5 51 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	24 (47%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	18 (35%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	10 (20%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	18 (35%)
5 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	14 (27%)



4.7 Mae'r dosbarthiad yn ôl canlyniad yn dangos cynnydd yn y gyfran o benderfyniadau a gadarnhawyd ar 55%, cynnydd o'i gymharu â ffigur y llynedd o 44%. Mae'n dangos bod y ffigurau yn ôl canlyniad mewn achosion Cymhorthdal Incwm wedi cynnal y gwelliant mewn perfformiad a gafwyd yn flaenorol.

4.8 Mae'r prif faterion yn y sampl eleni yn canolbwyntio ar amodau hawl 18% ac achosion gordalu 14%, gostyngiad o'i gymharu â'r achosion y llynedd oedd i gyfrif am 29% o'r achosion. Yr Uned Rheoli Dyledion sy'n ymdrin â'r achosion hyn bellach.

4.9 Darparwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys mewn 24 o achosion, (47%), gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r 65% yn sampl y llynedd, sydd i'w groesawu. Mewn 18 (35%) o achosion roedd hyn ar ffurf tystiolaeth lafar a ddarparwyd gan yr apelydd, sy'n awgrymu y byddai'r dystiolaeth wedi bod ar gael yn gynharach pe bai'r Asiantaeth wedi gofyn amdani.

4.10 Mewn 18 achos (35%), derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn. Lluniodd farn wahanol am y dystiolaeth honno a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad sy'n awgrymu, mewn achosion Cymhorthdal Incwm, fod problemau o hyd o ran asesu'r dystiolaeth sydd ar gael a derbyn yr hyn a roddir o flaen y sawl sy'n penderfynu. Rhoddwyd y pwysau anghywir i dystiolaeth mewn deg achos (20%).

4.11 Mewn deg achos (20%), teimlai'r tribiwnlys nad oedd y cyflwyniad yn dadlau achos y sawl oedd yn penderfynu yn llawn ac yn effeithiol. Mewn saith achos pellach nid oedd y cyflwyniad yn cynnwys yr holl ffeithiau, yn cynnwys y ffeithiau yr anghytunid arnynt ac mewn chwe achos nid oedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar seiliau'r apêl nac yn cynnwys yr holl dystiolaeth.

4.12 Codwyd pryderon gan Gadeiryddion am wneud penderfyniadau o fathau neilltuol, er enghraifft penderfyniadau am fyw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig lle, mewn un achos, nad oedd yna yn amlwg ddigon o dystiolaeth er i'r achos gael ei gyflwyno i'r tribiwnlys. Mewn achosion cyfalaf mae'r rhai sy'n penderfynu yn dal i fod yn gymysglyd ynglŷn â meddu ar gyfalaf gwirioneddol a phriodoli cyfalaf tybiannol lle na ellir egluro gwariant. Daeth rhai achosion gerbron tribiwnlys lle nad oedd unrhyw sylw wedi cael ei gymryd o ganllawiau'r Adran ei hun a chyflwynwyd eraill heb ymchwiliad priodol i'r ffeithiau. Roedd Cadeiryddion yn bryderus hefyd nad oedd rhai cyflwyniadau ar ffurf safonol yn delio â'r mater oedd yn destun apêl.

Rheoli Dyledion

4.13 Mae'r Uned Rheoli Dyledion wedi ymgymryd â'r gwaith o adennill gordaliadau ar draws y budd-daliadau. Ar hyn o bryd nid oes ffordd inni olrhain yr achosion hyn yn ôl y math o fudd-dal ond gallwn eu

hadnabod drwy'r Cod Codi. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd am y math hwn o achos ond bydd rhywfaint o orgyffwrdd â budd-daliadau eraill o ran y sylwadau a'r dadansoddiad.

Tabl 6 33 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	15 (45%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	7 (21%)
3 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	6 (18%)
4 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	8 (24%)
5 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	5 (15%)



4.14 Yn y sampl eleni, o'r 33 o achosion a wrth-drowyd roedd 15 (45%) lle darparwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â sampl y llynedd lle'r oedd y ffigur yn 69%. Mewn 13 achos (39%) roedd hyn ar ffurf tystiolaeth lafar ychwanegol, wedi'i darparu, mewn 11 achos (33%), gan yr apelydd. Mewn wyth achos (24%) lluniodd y panel farn wahanol am yr un dystiolaeth, mewn saith (21%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd ar gael ond na chafodd ei derbyn gan y sawl oedd yn penderfynu ac, mewn chwe achos (18%), ni roddodd y sawl oedd yn

penderfynu bwysau priodol i'r ffeithiau neu'r dystiolaeth. Dim ond mewn pum achos y teimlai'r tribiwnlys y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl (15%).

4.15 Roedd safon y cyflwyniadau yn dda gydag wyth (24%) lle nad oedd y cyflwyniadau wedi cynnwys yr holl dystiolaeth, saith (21%) lle na ddadleuwyd yr achos yn llawn, pedwar achos (12%) lle na chynhwyswyd yr holl ffeithiau perthnasol na dyfynnu'r statud neu'r gyfraith achosion gywir a thri (9%) lle na chanolbwyntiwyd ar seiliau'r apêl. Roedd pedwar lle nad oedd y cyfrifiadau yn gywir (12%) a lle nad oedd y penderfyniad wedi cael ei egluro'n iawn i'r apelydd.

4.16 Lle gwnaethpwyd sylwadau ychwanegol mynegodd Cadeiryddion bryderon lle'r oedd tystiolaeth ddogfennol wedi cael ei dinistrio gan gontractwyr yr Adran tra'r oedd yr apêl yn gyfredol. Mewn achosion cyfalaf roedd cyfrifiadau yn anghywir a chân Cadeiryddion eu cythruddo pan fyddai achosion wedi cael eu gohirio i roi cyfle i'r Adran i gynhyrchu tystiolaeth neu i ddarparu Swyddog Cyflwyno ac na chydymffurfiwyd â'u cais. Yr oeddent yn pryderu'n arbennig lle byddai achos yn mynd yn ei flaen heb i'r sawl sy'n penderfynu roi sylw i dystiolaeth yr apelydd na chynnal yr ymchwiliadau priodol.

5 Penderfyniadau lle ceir tystiolaeth feddygol – Budd-daliadau Anabledd a Gofalwyr a Budd-dal Analluogrwydd.

5.1 Yn y categori hwn y prif fudd-daliadau yw Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a Budd-dal Analluogrwydd. Mae maint y sampl a'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad B, tablau D i F.

Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini

Tabl 7 298 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion (cyfunol)

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	200 (67%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	74 (25%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	41 (14%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	97 (33%)
5 **Barn wahanol (feddygol):** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	42 (14%)
6 **Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd:** Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	43 (14%)
7 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	17 (6%)



5.2 Eleni mae'r sampl yn nes at y nifer cenedlaethol ar 42%. Mae'r gyfran o achosion a gafodd eu gwrthdroi yn y sampl yn 43%, ychydig yn is na ffigur y llynedd o 47%. Unwaith eto, y materion gofal a symudedd mwy cymhleth sy'n fwyaf amlwg yn yr achosion a wrth-drowyd – gyda'i gilydd maint i gyfrif am bron i 64% o'r sampl a wrth-drowyd, yr un fath bron â'r llynedd ar 62%.

5.3 Cyflwynwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys ar ôl i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei wneud mewn 200 o'r achosion (67%). Roedd hyn yn bennaf ar ffurf tystiolaeth lafar, 140 o achosion (47%) ac mewn 117 o'r achosion hyn fe'i darparwyd gan yr apelydd (39%). Eleni lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth mewn 97 (33%) o achosion. Mewn 74 achos (25%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd wedi bod gan y sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn ac mewn 41 (14%) ni roddodd y sawl oedd yn penderfynu bwysau priodol i ffeithiau neu dystiolaeth berthnasol. Mewn 24 achos (8%) seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau neu dystiolaeth annigonol oherwydd annigonolrwydd yr ymchwiliad i'r hawliad neu ailystyried. Mewn 21 (6%) roedd y sawl oedd yn penderfynu wedi anwybyddu tystiolaeth a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad.

5.4 Ar yr un pryd, roedd cadeiryddion o'r farn y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl mewn 17 achos (6%) a wrth-drowyd ac mewn dau achos credent nad oedd y penderfyniad wedi cael ei egluro'n iawn i'r apelydd.

5.5 Roedd safon y cyflwyniadau yn uchel. Dim ond mewn pum achos (2%) yr oedd y cyflwyniad wedi methu dadlau'r achos yn effeithiol ac mewn pedwar roedd y cyflwyniad wedi methu â chanolbwyntio ar seiliau'r apêl neu heb gynnwys yr holl dystiolaeth berthnasol. Roedd tri achos lle nad oedd y cyflwyniad wedi cynnwys neu wedi cyfeirio at y statud neu'r gyfraith achosion gywir a dau lle nad oedd y cyflwyniad wedi cynnwys manylion y ffeithiau i gyd.

5.6 Nodai sylwadau'r cadeiryddion fod y dystiolaeth lafar mewn llawer o achosion yn darbwyllo a'i bod yn aml yn dyngedfennol o ran galluogi'r tribiwnlys i wrthdroi'r penderfyniad. Roedd peth tystiolaeth fod apelyddion a chynrychiolwyr yn amharod i gynhyrchu tystiolaeth newydd cyn y gwrandawiad gan nad oeddent yn argyhoeddedig y byddai'r rhai sy'n penderfynu yn ei defnyddio i adolygu'r penderfyniad. Roedd cadeiryddion yn feirniadol hefyd lle nad oedd y sawl oedd yn penderfynu yn mynd ar drywydd yr holl faterion a gâi eu codi gan hawliad cyn y gwrandawiad, neu lle'r oeddent yn tueddu i ddibynnu ar adroddiadau ATOS byrrach yn hytrach nag adroddiadau meddygol llawn a ddarparwyd gan yr

apelydd, ac nad oeddent yn dweud pam. Tynasant sylw hefyd at faterion iechyd meddwl nad ymdriniwyd â hwy'n ddigonol ar yr adeg y gwnaed yr hawliad ac at adroddiadau meddygol o ansawdd wael oedd wedi'u seilio ar hanes annigonol a gymerwyd mewn asesiadau meddygol byr.

5.7 O ran y dystiolaeth feddygol, barnwyd nad oedd yr adroddiad meddygol gwreiddiol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd mewn 43 (14%) o'r achosion a wrth-drowyd, ar ôl i'r tribiwnlys ystyried y dystiolaeth ddilynol a ddarparwyd, yn cynnwys y dystiolaeth gan yr apelydd yn y gwrandawiad.[8] Mewn 42 o achosion (14%) lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth feddygol. Mewn 28 achos (9%), barnwyd nad oedd yr adroddiad meddygol yn ymdrin yn llawn â'r holl faterion; mewn 20 (7%) bod y sawl oedd yn penderfynu wedi anwybyddu tystiolaeth feddygol ac mewn 11 (4%) nad oedd y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn unol â chonsensws y farn feddygol.

5.8 Yn y sampl o achosion a wrth-drowyd, cynhyrchwyd yr adroddiadau meddygol o amrywiaeth o ffynonellau. Mewn 257 achos fe'u ddarparwyd gan ATOS yn unig, gan feddyg teulu yn unig mewn 17 achos a chan ymgynghorydd yn unig mewn chwe achos. Roedd rhai achosion lle'r oedd mwy nag un adroddiad ar gael, wedi'u darparu o gyfuniad o ffynonellau.

5.9 Mewn achosion lle'r oedd aelodau meddygol wedi gwneud sylwadau am safon y dystiolaeth feddygol, un thema gyffredin oedd na roddwyd sylw digonol i faterion iechyd meddwl. Mewn llawer o achosion, roedd tystiolaeth lafar ynghyd â thystiolaeth feddygol bellach yn holl bwysig. Roedd amser wedi'i dreulio gydag apelyddion yn archwilio eu hanes ac yn eu holi am eu hanghenion gofal a symudedd yn allweddol er mwyn deall goblygiadau eu hanabledd a galluogi'r tribiwnlys i ddod i gasgliad gwahanol. Er eu bod wedi gwella, beirniadwyd yr adroddiadau meddygol am fod yn rhy fyr, am beidio ag ymdrin â materion allweddol neu am ddarparu asesiad gwael o anabledd. Mewn rhai achosion, roedd materion nad oeddent wedi cael sylw ar yr adeg y gwnaed yr hawliad yn dal i fod heb gael eu datrys adeg y gwrandawiad pan allent fod wedi cael eu hadolygu lawer yn gynharach.

5.10 Eleni, mae'n ymddangos bod rhywfaint o welliant yn yr ystyr bod y lefel o dystiolaeth newydd sy'n cael ei chynhyrchu yn y gwrandawiad wedi gostwng ac, yn ôl y ffigurau oddi wrth gydweithwyr yn y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, drwyddi draw gwnaed cynnydd

8 Yn yr achosion hyn mae aelod meddygol y tribiwnlys wedi gwrando ar y dystiolaeth, wedi cael cyfle i holi'r apelydd ac wedi edrych ar yr adroddiadau meddygol a chofnodi ei farn ar yr holiadur.

yn lleihau'r nifer o achosion sy'n dod i dribiwnlys gyda gostyngiad o ryw 7,000 yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007. Efallai hefyd yn y dylwn dynnu sylw yma at y ffaith fod y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr wedi bod yn fwy na pharod i weithio gyda mi a'm cydweithwyr gweinyddol i symud yr argymhellion yr wyf wedi eu gwneud ymlaen er mwyn gwella'r safonau penderfynu ac archwilio ffyrdd newydd o gynyddu profiad a dealltwriaeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hyn i'w groesawu.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Tabl 8 31 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	19 (61%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	3 (10%)
3 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	1 (3%)
4 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	14 (45%)
5 Barn wahanol (feddygol): Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	7 (23%)
6 Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd: Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	6 (20%)
7 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	1 (3%)



5.11 Cynhyrchodd apelyddion mewn nifer uchel o achosion Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol hefyd dystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys. Digwyddodd hyn mewn 19 (61%) o'r achosion ac mae'n dilyn y patrwm i'r achosion hyn. Mewn 18 achos (58%) roedd hyn ar ffurf tystiolaeth lafar ac mewn 13 (42%) fe'i darparwyd gan yr apelydd. Mewn 14 (45%) lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth. Mewn tri achos (10%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd ar gael i'r sawl oedd yn penderfynu ond nad oedd yn barod i'w derbyn ac, mewn un, ni roddodd y rhai oedd yn penderfynu bwysau priodol i ffeithiau neu dystiolaeth berthnasol ac ni chynhaliasant ymchwiliad digonol i'r hawliad. Fodd bynnag, dim ond mewn un achos (3%) y teimlai'r tribiwnlys y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.

5.12 Roedd safon y cyflwyniadau yn uchel iawn; nid oedd unrhyw sylwadau beirniadol am safonau'r cyflwyniadau.

5.13 Lle gwnaeth cadeiryddion sylwadau am safon y drefn benderfynu tynasant sylw at bwysigrwydd tystiolaeth lafar a'r cyfle a gawsant i holi'r apelydd lle'r oedd y dystiolaeth yn bwrw goleuni newydd ar dystiolaeth oedd ganddynt yn barod neu'n ategu eu tystiolaeth ychwanegol hwy eu hunain. Dywedasant yn aml fod siarad â'r apelydd yn rhoi darlun cliriach iddynt o'r anabledd. Dywedodd y cadeiryddion hefyd mor bwysig yw hi i'r rhai sy'n penderfynu fantoli'r dystiolaeth yn hytrach na dim ond cyflwyno achos sy'n anffafriol i'r apelyddd. Roeddent yn feirniadol lle deuai achosion i'r tribiwnlys a bod tystiolaeth ar gael yn barod i gyfiawnhau gwneud penderfyniad disodli.

5.14 O ran y dystiolaeth feddygol, roedd saith achos (23%) lle lluniodd y panel farn wahanol am yr un dystiolaeth feddygol, gyda'r tribiwnlys yn tanlinellu pwysigrwydd tystiolaeth lafar. Roedd chwe achos (20%) lle nad oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd, a chwech (20%) lle nad oedd yr adroddiad meddygol yn ymdrin â'r holl faterion meddygol. Roedd dau achos lle nad oedd y cyngor a roddwyd yn yr adroddiad meddygol wedi cael ei gyfiawnhau'n ddigonol ac un achos lle'r anwybyddwyd tystiolaeth feddygol.

5.15 Yn y sylwadau am y dystiolaeth feddygol, beirniadodd y tribiwnlys y rhai oedd yn penderfynu lle nad oeddent wedi mynd ar drywydd materion a'u datrys cyn dod i'r gwrandawiad. Pwysleisiasant bwysigrwydd adroddiadau meddygol ychwanegol gan ymgynghorwyr a phwysigrwydd gallu gweld nodiadau achos ysbytai. Tynasant sylw at broblemau'n amcangyfrif effaith damweiniau yn y cyfamser ar anabledd ac anhawster llunio casgliadau pendant mewn amgylchiadau cyfnewidiol.

5.16 Y rheswm pennaf am wrthdroi penderfyniad yw bod tystiolaeth ychwanegol wedi cael ei chyflwyno i'r tribiwnlys. Er bod symudiad bach tuag at gynnydd yn y gwahaniaethau o ran dehongli tystiolaeth ac argraff nad yw'r rhai sy'n penderfynu a'r dystiolaeth y maent yn ei chyflwyno yn adlewyrchu difrifoldeb anabledd yr apelydd.

Budd-dal Analluogrwydd

Tabl 9 105 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	68 (65%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	22 (21%)
3 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	16 (15%)
4 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	46 (44%)
5 Barn wahanol (feddygol): Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	12 (11%)
6 Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd: Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	32 (30%)
7 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	10 (10%)



5.17 Nid yw'r problemau sydd wedi dod i'r amlwg o ran Budd-dal Analluogrwydd yn annhebyg i'r rhai gyda Lwfans Byw i'r Anabl a Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Mae'r ffigur o 54% o achosion a wrth-drowyd yn y sampl yn uwch na'r proffil achosion cenedlaethol, ond efallai fod a wnelo hynny â'r ffaith fod cyfran uchel o achosion, 70% o'r achosion a wrth-drowyd, 67% o'r sampl Budd-dal Analluogrwydd drwyddo draw, yn asesiadau gallu personol.

5.18 Ym mhatrwm cyffredinol yr achosion eleni roedd nifer sylweddol o achosion lle cyflwynwyd tystiolaeth newydd gerbron y tribiwnlys, 68 (65%) o'r achosion a wrth-drowyd. Mewn 52 (50%) o'r achosion hyn roedd ar ffurf tystiolaeth lafar, wedi'i darparu mewn 38 achos (36%) gan yr apelydd.

5.19 Mewn 46 achos a wrth-drowyd (44%), lluniodd y panel farn wahanol am yr un dystiolaeth; mewn 22 achos (21%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd gan y sawl oedd yn penderfynu ond nad oedd yn barod i'w derbyn; mewn chwe achos (6%) seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau neu dystiolaeth annigonol oherwydd ymchwilio annigonol i'r hawliad neu ailystyried. Mewn 16 (15%), ni roddodd y sawl oedd yn penderfynu bwysau priodol i ffeithiau perthnasol. Fodd bynnag, dim ond mewn deg achos (10%) yr oedd y tribiwnlys o'r farn y gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.

5.20 Mae safon y cyflwyniadau yn dal i fod yn uchel, gyda dim ond wyth lle nad oedd y cyflwyniad yn dadlau'r achos yn llawn ac yn effeithiol, pump (5%) lle nad oedd y cyflwyniad wedi canolbwyntio ar seiliau'r apêl; dau lle nad oedd y cyflwyniad wedi cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol neu'r holl dystiolaeth ac un lle nad oedd y cyflwyniad yn cyfeirio at y statud neu'r gyfraith achosion gywir.

5.21 Megis mewn achosion eraill, y sylw mwyaf cyffredin oedd bod tystiolaeth lafar gan yr apelydd wedi arwain y tribiwnlys i gasgliad gwahanol. Beirniadodd cadeiryddion gyflwyniadau nad oeddent yn ymdrin â seiliau'r apêl ac nad oeddent ond yn datgan ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Maent yn dal i godi pryderon bod yr archwiliadau meddygol yn annigonol mewn rhai achosion a'u bod yn anwybyddu ffeithiau ynglŷn â chyflwr meddygol yr apelydd neu nad ydynt yn adlewyrchu maint problemau'r apelydd. Roedd hyn yn neilltuol o wir am faterion iechyd meddwl. Mewn sawl achos nid oedd y sawl oedd yn penderfynu wedi llwyr werthfawrogi materion iechyd meddwl. Roeddent yn poeni'n arbennig am achosion lle na roddwyd sylw i'r materion a nodwyd yn y llythyr apêl er gwaethaf

gohiriadau a chyfarwyddiadau i gynhyrchu cyflwyniadau pellach. Mae achosion lle mae nam ar y synhwyrau yn dal i achosi problemau.

5.22 Lle gwnaeth aelodau meddygol sylwadau am safon y dystiolaeth feddygol, mewn 32 achos (30%) teimlid nad oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd. Mewn 17 achos (16%) nid ymdriniwyd â'r holl faterion yn yr adroddiad meddygol; mewn 12 achos (11%) lluniodd y panel farn wahanol am yr un dystiolaeth ac nid oedd y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn gydnaws â chonsensws y farn feddygol; mewn pedwar achos anwybyddwyd y dystiolaeth feddygol ac nid ymdriniwyd â thystiolaeth anghyson o ffynonellau eraill yn yr adroddiad meddygol. Mewn tri achos ni chafodd y dystiolaeth feddygol ei defnyddio'n gywir gan y sawl oedd yn penderfynu.

5.23 Yn y sylwadau roedd y tribiwnlysoedd yn feirniadol o adroddiadau meddygol nad oeddent yn gyflawn neu'n gywir ac a oedd yn tueddu i beidio ag adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd. Roeddent yn cael anhawster neilltuol i asesu materion iechyd meddwl yn ddigonol. Beirniadwyd y rhai oedd yn penderfynu lle'r oeddent yn ffafrio'r adroddiad meddygol uwchlaw tystiolaeth arall heb egluro pam, ac roedd archwiliadau byr, nad oeddent yn cofnodi hanes meddygol llawn hefyd yn peri pryder.

Tabl 10 73 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	56 (77%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	19 (26%)
3 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	10 (14%)
4 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	24 (33%)
5 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	8 (11%)



6.1 Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn delio â 3 phrif gategori o benderfyniadau'r Asiantaeth Cynnal Plant – asesiadau, gwyriadau a chyfeirio achosion. Nid yw achosion a gyfeiriwyd yn cael eu cynnwys yn y sampl gan mai'r tribiwnlys sy'n gwneud y penderfyniad haen gyntaf. Rydym yn dal i dargedu achosion yr Asiantaeth Cynnal Plant er mwyn cynhyrchu cyfran uwch o ganlyniadau a'r rheini'n fwy ystyrlon ac, eleni, bu cynnydd bychan yn y sampl. Mae'r niferoedd yn dal i gael eu hystumio er mwyn gwneud hyn. Unwaith eto, mae'r canlyniadau yn y sampl yn dangos nifer fawr o ohiriadau (24%) sy'n

adlewyrchu natur gymhleth gwneud penderfyniadau yn y maes hwn. Yn wahanol i Asiantaethau eraill, anfonodd yr Asiantaeth Cynnal Plant Swyddogion Cyflwyno i 81% o'r achosion sampl.

6.2 Mewn 56 achos (77%) rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl oedd yn penderfynu. Beirniadaeth gyffredin oedd na ofynnodd yr Asiantaeth am dystiolaeth bellach. Mewn 37 achos (51%) roedd hyn ar ffurf tystiolaeth lafar, yn cael ei darparu gan yr apelydd mewn 33 achos (45%). Mewn 24 achos (33%) lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth; mewn 19 (26%) derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth yr oedd y sawl oedd yn penderfynu yn amharod i'w derbyn ac mewn deg (14%) ni roddodd y sawl oedd yn penderfynu bwysau priodol i ffeithiau neu dystiolaeth berthnasol.

6.3 Roedd safon y cyflwyniadau yn uchel gyda dim ond pedwar achos (5%) lle methodd y cyflwyniad â chynnwys yr holl dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r penderfyniadau a dadlau'r achos yn llawn ac yn effeithiol; ac un achos lle nad oedd y cyflwyniad yn cynnwys yr holl ffeithiau neu'n cyfeirio at y statud neu'r gyfraith achosion gywir.

6.4 Beirniadodd cadeiryddion y rhai oedd yn penderfynu lle nad oeddent wedi mynd ar drywydd materion ac wedi datrys cwestiynau cyn i'r achosion ddod i'r tribiwnlys. Roedd cyfrifiadau yn aml yn anghywir a chân achosion eu tanseilio gan nad oedd yr Asiantaeth yn gallu darparu'r holl bapurau perthnasol. Mewn rhai achosion teimlai'r tribiwnlys fod penderfyniadau anodd yn cael eu cyflwyno i'r tribiwnlys pan allai'r sawl oedd i fod i benderfynu fod wedi gwneud penderfyniad.

7 I gloi

7.1 Mae llawer o'r tueddiadau yr adroddwyd amdanynt mewn adroddiadau blaenorol yn parhau. Eleni mae'r nifer o achosion lle cynhyrchwyd tystiolaeth ychwanegol yn is na ffigur y llynedd, ond dyma'r rheswm mwyaf cyffredin o hyd dros wrthdroi achosion, ac mae'n dal yn wir mai tystiolaeth lafar yr apelydd sy'n galluogi'r tribiwnlys i fwrw rhagor o oleuni ar yr achos gan amlaf. Mae holi'r apelydd yn cael ei weld yn aml gan Gadeiryddion fel y ffordd fwyaf defnyddiol o benderfynu a oedd y sawl oedd yn penderfynu wedi gwneud y penderfyniad iawn. Mae cryn wahaniaeth o hyd rhwng y ffordd y mae'r tribiwnlys a'r sawl sy'n penderfynu yn gweld y dystiolaeth, er y bu peth gostyngiad yn y nifer o achosion lle nad oedd adroddiadau meddygol yn adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd. Ond, fel yr ydym wedi gweld, mae Cadeiryddion yn dal i fod yn feirniadol pan ddilynir yr adroddiad meddygol ar draul tystiolaeth arall gredadwy heb eglurhad. Mae'n ymddangos hefyd nad oes cais yn cael ei wneud am dystiolaeth bellach ar y cam ailystyried ac na chysylltir fel mater o drefn ag apelwyr yn bersonol i edrych yn fanwl ar yr apêl, seiliau'r apêl a'r dystiolaeth cyn i'r apêl fynd i dribiwnlys.

7.2 Mae'n ymddangos, fodd bynnag, fod y darlun drwyddo draw yn dangos lleihad yn y gwahaniaethau rhwng y panel a'r sawl sy'n penderfynu, ac eithrio'r dehongliad o'r dystiolaeth feddygol.

Tabl 11 Cwestiynau Cyffredin o Saith Mlynedd o Samplu



7.3 Yn gyffredinol, mae'r pwyntiau pwysicaf sy'n deillio o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fel a ganlyn:

- Achosion a wrth-drowyd – y rheswm mwyaf cyffredin dros wrthdroi penderfyniad o hyd yw bod tystiolaeth ychwanegol wedi

cael ei chyflwyno i'r tribiwnlys. Mae hyn yn bennaf ar ffurf tystiolaeth lafar sydd ar gael oddi wrth yr apelydd, ac sydd ar gael o adroddiadau meddygol pellach mewn achosion meddygol;

- Mae dehongli'r dystiolaeth yn dal i fod yn fater o bwys hefyd, yn enwedig yn achos tystiolaeth feddygol lle'r oedd beirniadu am beidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd yr apelydd. Hefyd, beirniadwyd achosion lle'r oedd y sawl oedd yn penderfynu wedi dibynnu ar ATOS i'r fath raddau nes anwybyddu tystiolaeth arall, yn aml heb gyflwyno unrhyw resymau law yn llaw â hynny.

- Tystiolaeth feddygol – er bod y maes hwn wedi gwella, erys problemau o ran ansawdd y dystiolaeth feddygol a'r defnydd ohoni.

- Iechyd Meddwl – mae adroddiadau meddygol yn dal i gael eu beirniadu lle nad ydynt yn archwilio problemau iechyd meddwl neu faterion yn ymwneud â nam ar y synhwyrau;

- Tystiolaeth – mae angen gwneud mwy o ymdrech i ddatrys anghysondebau a mynd ar drywydd materion sydd heb gael eu datrys cyn dod ag achosion i dribiwnlys, drwy fynd ati'n weithredol i geisio tystiolaeth ychwanegol ar y cam ailystyried ac, os oes raid, drwy gysylltu â'r apelydd i drafod seiliau'r apêl ac i geisio datrys materion cyn iddynt ddod i wrandawiad tribiwnlys.

- Mae angen i'r dystiolaeth ynglŷn â hawliadau fod yn hygyrch, ei bod lle bo raid yn cael ei chadw, a'i bod ar gael i'r tribiwnlys. Awgrymodd rhai Cadeiryddion fod dogfennau'n cael eu dinistrio tra'r oedd apêl yn gyfredol;

- Ansawdd – mae ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael a'r cyflwyniadau o'r pwys pennaf. Dylid mynd i'r afael ag anghysondebau cyn y gwrandawiad a lle mae yna faterion nad oes modd eu datrys dylent gael eu hamlygu a dylid ymdrin â nhw yn y cyflwyniad.

7.4 Er bod rhywfaint o newid pwyslais efallai, mae'r themâu allweddol yn fy adroddiadau blynyddol wedi ennill eu plwyf ac maent yn debyg i'r ystod o wybodaeth a gynhyrchir o ffynonellau eraill bob blwyddyn. Mae'r adborth yr wyf fi a'm cydweithwyr yn ei gynhyrchu yn dangos yn glir lle dylai'r Asiantaethau ddechrau o ran mynd i'r afael â'r problemau yn y drefn benderfynu. Mae'r Asiantaethau'n gwneud llawer o bethau i wella ond mae angen mwy o ffocws ar y gwaith y maent yn ei wneud ac mae angen gwneud gwelliannau'n gyflymach.

Atodiad A

Yr holiadur a'r samplu

Nodai'r holiadur ei hun yr achos, y dyddiad, y lleoliad a'r cadeiryddion fel bod modd olrhain apeliadau unigol lle'r oedd yna gwestiynau. Fe'i hailstrwythurwyd yn sylweddol yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid ac yng ngoleuni'r canlyniadau o'r ymarferiad peilot a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 1999, yng ngoleuni ymrwymiadau newydd i geisio cipio rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth feddygol sydd ar gael i'r tribiwnlys, ac yn dilyn y canlyniadau o'r flwyddyn lawn gyntaf o gasglu data.

Ym mhob achos, cadeiryddion Rhanbarthol neu Ddosbarth cyflogedig, yn gwrando ar achosion ledled y wlad, oedd yn llenwi'r holiadur. Gofynasom hefyd i'r aelodau panel oedd â chymwysterau meddygol wneud sylwadau am y dystiolaeth feddygol lle'r oedd hyn yn berthnasol.

Drwy ddefnyddio dull hapddethol a ddarparwyd gan gydweithwyr yn uned Ymchwil Gweithredol y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rydym wedi ceisio cynhyrchu sampl sy'n adlewyrchu'r proffil achosion eang a ystyrir gan y Gwasanaeth Apeliadau ac osgoi'r problemau a wynebwyd yn y cynllun peilot pan oedd y ffigurau'n tueddu tuag at fudd-daliadau neilltuol. Ar gyfer y pedwerydd adroddiad cafodd y model ei ddiwygio eto i gynhyrchu sampl sy'n adlewyrchu'n fwy agos yr achosion a ddaeth i law.

Cafodd y dull samplu ei bwysoli tuag at achosion Cynnal Plant er mwyn casglu digon o wybodaeth am yr achosion a ddaeth gerbron y tribiwnlys i ddarparu canlyniadau ystyrlon.

Casglwyd yr ymatebion a chofnodwyd y manylion o'r holiaduron ar gronfa ddata i gynhyrchu'r canlyniadau mewn ffurf y gellid ei defnyddio i ddadansoddi'r data.

Rhestr Wirio Farnwrol Ebrill 2006 – Mawrth 2007	
Rhif yr Apêl: **(Gweler rhestr achosion y sesiwn)**	
1 **Dyddiad y Gwrandawiad:**	
2 **Lleoliad:**	
3 **Cyfansoddiad y Tribiwnlys:** **(Gweler rhestr achosion y sesiwn)**	☐ 01 Aelod cyfreithiol yn unig ☐ 02 Aelod cyfreithiol ac ariannol ☐ 03 Aelod cyfreithiol, meddygol ac anabledd ☐ 04 Aelod cyfreithiol a meddygol ☐ 05 Aelod cyfreithiol ac aelod meddygol arbenigol ☐ 06 Aelod cyfreithiol a 2 aelod meddygol arbenigol
4 **Math o Wrandawiad:**	☐ Llafar ☐ Papur
5 **Enw'r Cadeirydd:**	
6 **Dyddiad y penderfyniad sy'n destun apêl:**	
7 **Codau:** **(Gweler rhestr achosion y sesiwn)**	Cod Budd-dal (rhifau)
	Cod Codi (llythrennau)
8 **Yn bresennol**	☐ SC ☐ Apelydd ☐ Cynrychiolydd ☐ Atebydd
9 Lle nad oedd Swyddog Cyflwyno yn bresennol, ticiwch pe bai hynny wedi bod o gymorth a nodwch pam isod. ☐ a. I egluro'r rhesymau y tu cefn i'r penderfyniad ☐ b. I egluro'r cyflwyniad ☐ c. I drafod tystiolaeth ychwanegol ☐ d. Arall – manylwch	
10 **Canlyniad**	☐ Gwrth-drowyd ☐ Cadarnhawyd ☐ Gohiriwyd

Llenwch weddill yr holiadur os gwelwch yn dda am bob achos boed hwy wedi cael eu Gwrthdroi, eu Cadarnhau neu eu Gohirio. Ym mhob achos mae angen inni wybod pam y cytunodd neu yr anghytunodd y panel neu pam y cafodd yr achosion eu Gohirio.

Ym mhob achos (gan gynnwys achosion a gadarnhawyd) ticiwch os ydynt yn berthnasol a rhowch wybodaeth ychwanegol ar y diwedd yn y lle a ddarparwyd.

11 Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth oedd ar gael i'r sawl oedd yn penderfynu ond nad oedd yn barod i'w derbyn. ☐

12 Lluniodd y panel farn wahanol am yr un dystiolaeth. ☐

13 Nid oedd anghytuno am y ffeithiau ond roedd y sawl oedd yn penderfynu wedi camddehongli eu heffaith yn ôl y gyfraith. ☐

14 Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl oedd yn penderfynu. (Os ydych wedi ticio'r blwch hwn nodwch ym mlwch 26 beth oedd natur y dystiolaeth ychwanegol h.y. gostyngiad o ran enillion). ☐

Roedd y dystiolaeth ar ffurf:
- a) Adroddiad arbenigol a gyflwynwyd ☐
- b) Adroddiad arbenigol a sicrhawyd gan y tribiwnlys ☐
- c) Tystiolaeth lafar ☐
- d) Tystiolaeth ysgrifenedig bellach ☐

Pwy ddarparodd y dystiolaeth?
- a) Yr Apelydd ☐
- b) Y Cynrychiolydd ☐
- c) Arall – manylwch ☐

.....

14b Lle darparwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys, oedd unrhyw awgrym pam na chyflwynwyd y dystiolaeth hon yn gynharach? Rhowch fanylion e.e. ni ofynnwyd i'r apelydd amdani ar ôl cyflwyno'r apêl, dim ond yn ddiweddarach y daeth ar gael.

.....

15 Seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau/tystiolaeth annigonol oherwydd annigonolrwydd yr ymchwilio i'r hawliad neu'r ailystyried. ☐

16 Anwybyddodd y sawl oedd yn penderfynu dystiolaeth a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad. ☐

17 Ni roddodd y sawl oedd yn penderfynu bwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol. ☐

18 **Nid** oedd y cyfrifiadau'n gywir. ☐

19 Ni chafodd y penderfyniad ei egluro'n iawn i'r hawlydd. ☐

20 Gallai'r asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl. ☐

21 Nid oedd y cyflwyniad yn cynnwys yr holl dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r penderfyniad dan apêl.

22 Nid oedd y cyflwyniad yn cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol, yn cynnwys ffeithiau yr oedd anghytuno yn eu cylch.

23 Nid oedd y cyflwyniad yn cynnwys neu'n cyfeirio at y statud neu'r gyfraith achosion gywir.

24 Nid oedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar seiliau'r apêl. ☐

25 Nid oedd y cyflwyniad yn dadlau'r achos yn llawn ac yn effeithiol. ☐

26 Os ydych wedi ticio unrhyw un/rai o'r uchod, dywedwch **pam** wrthym.
(Defnyddiwch flwch 28 i ymhelaethu ar unrhyw faterion yn ôl yr angen).

.....
.....
.....
.....
.....
.....

27 **Achosion a ohiriwyd:**
Gohiriwyd yr achos oherwydd:

.....
.....
.....
.....
.....
.....

28 **Gwybodaeth bellach:**
Rhowch sylwadau am y safon benderfynu drwyddi draw gan gynnwys y rhesymau pam y cafodd/na chafodd y penderfyniad ei gefnogi, safon y dystiolaeth a sut y'i defnyddiwyd yn y broses benderfynu. Dylech gynnwys unrhyw sylwadau positif sydd gennych yma. Gallwch barhau dros y ddalen os oes raid.

.....
.....
.....
.....
.....
.....

Rhestr Wirio Feddygol

Ticiwch os ydynt yn berthnasol. DS Os oes unrhyw flwch wedi cael ei dicio, rhaid llenwi blwch 39

(I gael ei llenwi gan yr aelod o'r panel sydd wedi cymhwyso'n feddygol)

29	Defnyddiwyd y dystiolaeth feddygol yn anghywir gan y sawl oedd yn penderfynu.	☐
30	Camddehonglodd y sawl oedd yn penderfynu y dystiolaeth feddygol.	☐
31	Mae tystiolaeth feddygol a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad wedi cael ei hanwybyddu.	☐
32	Lluniodd y panel farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	☐
33	Nid oedd yr adroddiad meddygol yn adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	☐
34	**Nid** ymdriniwyd â'r holl faterion meddygol yn yr adroddiad meddygol.	☐
35	**Nid** oedd y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn gydnaws â chonsensws y farn feddygol.	☐
36	**Ni** chyfiawnhawyd y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn ddigonol.	☐
37	**Nid** ymdriniwyd â thystiolaeth anghyson o ffynonellau eraill yn yr adroddiad meddygol.	☐
38	**Nid** oedd y cyngor yn yr adroddiad meddygol yn gyson.	☐
39	Os **na** chafodd yr adroddiad meddygol ei lunio gan Atos Origin dywedwch pwy ddarparodd yr adroddiad e.e. meddyg teulu, ymgynghorydd	
40	Os ydych wedi ticio unrhyw un/rai o'r blychau uchod dywedwch wrthym **pam** ac ychwanegwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am ddefnyddio tystiolaeth feddygol yn y broses benderfynu. Dylech gynnwys unrhyw sylwadau positif.	

B Atodiad B

Mae'r tablau isod yn dangos canlyniadau'r sampl am bob categori yr ymdrinnir ag ef yn yr adroddiad. Maent yn rhoi'r nifer o achosion fesul canlyniad a cheir siart hefyd sy'n dangos y dosbarthiad.

Tabl A Lwfans Ceisio Gwaith 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	8	11%
Gwrth-drowyd	22	29%
Cadarnhawyd	46	61%
Cyfanswm	78	



Tabl B Cymhorthdal Incwm 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	24	15%
Gwrth-drowyd	51	31%
Cadarnhawyd	90	55%
Cyfanswm	165	



Tabl C Rheoli Dyledion 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	24	19%
Gwrth-drowyd	33	29%
Cadarnhawyd	56	50%
Cyfanswm	113	



Tabl D Lwfans Byw i'r Anabl/Lwfans Gweini 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	92	13%
Gwrth-drowyd	298	43%
Cadarnhawyd	300	43%
Cyfanswm	690	



Tabl E Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	27	25%
Gwrth-drowyd	31	28%
Cadarnhawyd	51	47%
Cyfanswm	109	



Tabl F Budd-dal Analluogrwydd 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Canlyniad	Nifer	Canran
Gohiriwyd	13	7%
Gwrth-drowyd	105	54%
Cadarnhawyd	78	40%
Cyfanswm	196	



Tabl G Cynnal Plant 2006-2007:

Cyfansoddiad y sampl yn ôl canlyniad tribiwnlys.

Mae'r Gwasanaeth Apeliadau'n delio â thri phrif gategori o benderfyniadau gan yr Asiantaeth Cynnal Plant – asesiadau, penderfyniadau gwyro (sydd erbyn hyn yn cynnwys Apeliadau Diwygio ac Amrywiadau) a chyfeirio achosion. O ran cyfeirio achosion, y tribiwnlys yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniad ac mae'r penderfyniadau hyn wedi cael eu hepgor felly. Mae'r ystadegau pennawd, wedi'u dadansoddi rhwng y ddau gategori sy'n weddill, fel a ganlyn.

Canlyniad	Asesiadau	Gwyriadau	Cyfanswm
Gohiriwyd	37 (21%)	15 (37%)	54 (24%)
Gwrth-drowyd	61 (34%)	12 (29%)	73 (33%)
Cadarnhawyd	82 (46%)	14 (34%)	96 (43%)
Cyfanswm	180	41	221



Canlyniadau o Sampl 2005-2006

Mae'r canlyniadau a'r holiadur wedi newid ers cwblhau'r adroddiad cyntaf fel rhan o'n gwaith parhaus yn monitro ac yn gwerthuso'r dull samplu a chynnwys yr adroddiadau. O ran yr holiadur, mae cwestiynau newydd wedi cael eu hychwanegu ac mae eraill oedd â chyfraddau ymateb isel wedi cael eu dileu. Mae'r canlyniadau pennawd a'r tablau o'r samplu a wnaethpwyd y llynedd ynghlwm er gwybodaeth.

Tabl 1 Sampl o'i gymharu â'r achosion a ddaeth i law yn genedlaethol – %

Budd-dal	Sampl		Cyf achosion
	Nifer Achosion	%	%
Asesiadau/Gwyriadau Cymorth Plant	95	5	2
Lwfans Byw i'r Anabl/ Lwfans Gweini	898	47	39
Budd-dal Analluogrwydd	325	17	29
Cymhorthdal Incwm	145	8	7
Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol/ Budd-dal Anafiadau Diwydiannol	120	6	5
Lwfans Ceisio Gwaith	78	4	6
Eraill	244	13	12
Cyfanswm	1,905		

* Roedd y nifer o achosion yn genedlaethol yn 2005 yn 226,000.



Canlyniadau'r Sampl

Cynhyrchodd yr holiaduron gyfanswm o 1,905 o atebion am y cyfnod Ebrill 2005 hyd at Fawrth 2006. Cyfyngwyd y sampl i'r tribiwnlysoedd hynny a arweiniodd at y tri chanlyniad isod:

- Gohiriwyd – lle'r oedd rhyw reswm dros beidio â gwrando'r achos, er enghraifft lle'r oedd yr apelydd yn absennol oherwydd salwch, neu lle gofynnodd y Cadeiryddion am eglurhad pellach a bod y mater wedi cael ei gyfeirio'n ôl at y sawl oedd yn penderfynu.
- Gwrth-drowyd – lle mae'r tribiwnlys yn anghytuno â phenderfyniad y sawl oedd yn penderfynu ac yn gwneud ei benderfyniad ei hun.
- Cadarnhawyd – lle mae'r tribiwnlys yn cytuno â'r penderfyniad.

Tabl 2 Canlyniadau'r sampl o'u cymharu â'r canlyniadau cenedlaethol

	Sampl		Cenedlaethol
Gohiriwyd	277	15%	18%
Gwrth-drowyd	801	42%	37%
Cadarnhawyd	827	43%	45%



Tabl 3 Canlyniadau – 801 o Achosion wedi'u Gwrthdroi

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	554 (69%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	205 (26%)
3 Ffeithiau annigonol: Seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau neu dystiolaeth annigonol oherwydd ymchwilio annigonol i'r hawliad neu ailystyried.	111 (14%)
4 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	146 (18%)
5 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	291 (36%)
6 Barn wahanol (feddygol): Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	166 (21%)
7 Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd: Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	173 (22%)
8 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	76 (9%)



Tabl 4 28 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 Tystiolaeth ychwanegol: Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	15 (54%)
2 Derbyniwyd tystiolaeth: Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	11 (39%)
3 Pwysau anghywir: Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	9 (32%)
4 Barn wahanol: Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	15 (54%)
5 Osgoi'r apêl: Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	5 (19%)



Cymhorthdal Incwm

Tabl 5 54 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad		Ymatebion
1	**Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	35 (65%)
2	**Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	15 (28%)
3	**Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	11 (20%)
4	**Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	20 (37%)
5	**Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	10 (19%)



Tabl 6 35 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	24 (69%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	9 (26%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	10 (29%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	10 (29%)
5 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	6 (17%)



Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini

Tabl 7 420 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion (cyfunol)

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	304 (72%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	106 (25%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	77 (18%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	146 (35%)
5 **Barn wahanol (feddygol):** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	103 (25%)
6 **Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd:** Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	82 (20%)
7 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	38 (9%)



Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Tabl 8 43 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	30 (70%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	14 (33%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	7 (16%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	13 (30%)
5 **Barn wahanol (feddygol):** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	13 (30%)
6 **Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd:** Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	15 (35%)
7 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	1 (2%)



Budd-dal Analluogrwydd

Tabl 9 159 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	121 (76%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	33 (21%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	21 (13%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	64 (40%)
5 **Barn wahanol (feddygol):** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol ar sail yr un dystiolaeth feddygol.	42 (26%)
6 **Peidio ag adlewyrchu difrifoldeb anabledd:** Nid oedd yr adroddiad meddygol wedi adlewyrchu difrifoldeb yr anabledd.	74 (47%)
7 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	9 (6%)



Tabl 10 34 o Achosion wedi'u Gwrthdroi: Ymatebion

Datganiad	Ymatebion
1 **Tystiolaeth ychwanegol:** Rhoddwyd tystiolaeth ychwanegol i'r tribiwnlys nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad.	20 (59%)
2 **Derbyniwyd tystiolaeth:** Derbyniodd y tribiwnlys dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ond nad oedd yn barod i'w derbyn.	8 (24%)
3 **Pwysau anghywir:** Ni roddodd y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad y pwysau priodol i ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.	6 (18%)
4 **Barn wahanol:** Lluniodd y tribiwnlys farn wahanol am yr un dystiolaeth.	11 (32%)
5 **Osgoi'r apêl:** Gallai'r Asiantaeth fod wedi osgoi'r apêl.	7 (21%)



D Annex D

Rhestr Byrfoddau

Term	Byrfodd
Lwfans Gweini (Attendance Allowance)	AA
Lwfans Byw i'r Anabl (Disability Living Allowance)	DLA
Budd-dal Analluogrwydd (Incapacity Benefit)	IB
Cymhorthdal Incwm (Income Support)	IS
Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol	IIDB
Lwfans Ceisio Gwaith (Jobseeker's Allowance)	JSA

Wedi ei gyhoeddi gan y Wasanaeth Apeliadau. Argraffwyd Mehefin 2007.
© Hawlfraint y Goron 2007